Y Senedd

# Adroddiad yr adolygiad o’r Rheolau a’r Canllawiau ar Ddefnyddio Adnoddau’r Senedd 2026

Mae'r ddogfen hon yn ymwneud â Rheol 8 o'r Cod Ymddygiad.

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ........ 3**

Y cefndir ........ 3

**2. Eglurhad o'r geiriad neu'r ystyr ........ 4**

Ystyriaethau ........ 4

Adborth ........ 4

**3. Sylwebaeth sy'n ymestyn y tu hwnt i'r cynigion ........ 7**

**4. Casgliadau ........ 9**

# 1. Cyflwyniad

**1.** Gan ddisgwyl y Seithfed Senedd, cynhaliwyd adolygiad o'r Rheolau a'r Canllawiau ar Ddefnyddio adnoddau'r Senedd, gyda'r nod o dynnu ar brofiad diweddar i roi mwy o eglurder ac adlewyrchu newidiadau yn y fframwaith rheoleiddio. Adroddiad yw hwn am y sylwadau a ddaeth i law ynghylch y newidiadau arfaethedig a nodwyd yn fanwl i ymgynghori arnynt, a'r casgliadau canlyniadol.

**2.** Mae Rheolau a Chanllawiau y Chweched Senedd i'w gweld yma: **Rheolau a Chanllawiau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd**.

## Y cefndir

**3.** Mae'r Rheolau a'r Canllawiau yn rhan allweddol o'r Fframwaith Rheoleiddio ar gyfer Aelodau o'r Senedd, gan eistedd ochr yn ochr â'r Cod Ymddygiad. Mae Rheol 8 o'r Cod yn nodi bod yn rhaid i'r Aelodau gydymffurfio â'r rheolau a wneir o bryd gan Brif Swyddog Cyfrifyddu Comisiwn y Senedd—y Clerc a Phrif Weithredwr—ar y defnydd o adnoddau a ddarperir gan Gomisiwn y Senedd. Mae cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu yn cynnwys sicrhau rheoleiddrwydd a phriodoldeb gwariant, gwerth am arian, rheoli risg, a sicrwydd cadarn ynghylch y defnydd o adnoddau cyhoeddus. Er mwyn cefnogi'r dyletswyddau hyn, mae ar y swyddog cyfrifyddu angen trefn sicrwydd effeithiol. Cyhoeddwyd y Rheolau a'r Canllawiau gyntaf cyn etholiadau 2016 ac maent wedi cael eu diweddaru o bryd i'w gilydd i wella eglurder a defnyddioldeb i'r Aelodau a'r Swyddog Cyfrifyddu fel ei gilydd.

# 2. Eglurhad o'r geiriad neu'r ystyr

## Ystyriaethau

**4.** Nid oedd yr adolygiad presennol yn ceisio gwneud newidiadau helaeth, ond yn hytrach parhau â'r broses o fireinio'r geiriad er mwyn cysondeb ac eglurder, ac i adlewyrchu datblygiadau ers y diwygiad diwethaf. Cynigiwyd eglurhad a newidiadau o ran cyflwyno, gyda newidiadau wedi'u tracio yn yr atodiad. Mewn rhai achosion, awgrymodd profiad y gellid gwneud ystyr neu fwriad rheolau neu ganllawiau penodol yn gliriach, a chafodd y pwyntiau hyn eu crynhoi i ymgynghori arnynt. Nodwyd bod hefyd angen diweddariadau i groesgyfeiriadau, megis dileu cyfeiriadau at ranbarthau yn sgil Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024.

**5.** Roedd ystyriaethau penodol yn cynnwys addasiadau i gyd-destun a dehongliad y Rheolau a'r Canllawiau, eglurhad ynghylch atgyfeiriadau at y Comisiynydd Safonau, a diweddariadau i adlewyrchu cyfrifoldebau'r Aelodau a chwmpas gweithrediadau'r cyfryngau. Roedd cynigion ychwanegol yn cynnwys nodiadau atgoffa am gydymffurfio â deddfwriaeth arall, eglurhad o weithdrefnau ariannol, a gweinyddu fetio diogelwch. Y bwriad oedd sicrhau bod y Rheolau'n parhau i fod yn glir, yn gyson ac yn addas i'r diben wrth i'r Senedd symud i'w thymor nesaf.

## Adborth

**6.** Gwahoddodd yr ymgynghoriad sylwadau ar gynigion penodol, a gafodd eu gosod yn fanwl. Cafwyd ymatebion gan ystod o randdeiliaid, gan gynnwys un o Gynghorwyr Annibynnol y Comisiwn, y Comisiynydd Safonau, Cymdeithas yr Iaith, Comisiynydd y Gymraeg, a Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd. Mae'r adran a ganlyn yn crynhoi'r adborth a ddaeth i law, gan dynnu sylw at y meysydd o gefnogaeth eang a'r awgrymiadau penodol ar gyfer gwelliant pellach.

**7.** Defnyddiodd dau ymatebydd yr ymgynghoriad i eirioli dros ymagwedd fwy uchelgeisiol a systemig at ddwyieithrwydd, sy'n ymestyn y tu hwnt i gwmpas y cynigion hyn ar gyfer y Rheolau a'r Canllawiau ar Ddefnyddio Adnoddau. Fodd bynnag, ceir crynodeb o'r pwyntiau hynny yn adran 3.

**8.** Roedd cefnogaeth eang i'r dull o egluro a symleiddio gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr. Cynigiodd sawl ymatebydd awgrymiadau adeiladol a phenodol i wella eglurder, cysondeb, ac i lywio cydymffurfiaeth.

### Rheol 1: Atebolrwydd personol

**9.** Roedd y Bwrdd Taliadau Annibynnol yn cefnogi'r newid i ganllawiau Rheol 1, gan fewnosod nodyn atgoffa bod yn rhaid i Aelodau gydymffurfio â'r gyfraith berthnasol wrth ddefnyddio adnoddau'r Senedd. Awgrymodd y Comisiynydd Safonau y dylid cryfhau canllawiau Rheol 1 drwy gyfeirio at Reol 24 cyfredol y Cod Ymddygiad, gan sicrhau bod Aelodau'n cymryd camau rhesymol i sicrhau cydymffurfiaeth gan staff cyn dirprwyo tasgau. Gwnaed addasiad i ymgorffori hyn.

### Rheol 2: Gwerth am arian, cynaliadwyedd a'r cyfrifoldeb i gynnal enw da

**10.** Gofynnodd y Bwrdd Taliadau Annibynnol am newid i'r derminoleg mewn perthynas â gwariant ar gyfer teithio gan ei fod yn symud i ffwrdd o'r term 'lwfansau' yn y Penderfyniad. Gwnaed addasiad.

**11.** Cymdeithas yr Iaith: Yn awgrymu y dylid ychwanegu dyletswyddau ynglŷn â'r Gymraeg at Reol 2(b), i ymddangos ochr yn ochr â chyfle cyfartal a datblygu cynaliadwy. Mae'r awgrym hwn wedi'i ystyried ar y cyd â Rheol 9, gan fod gan Ddeddf Ieithoedd Swyddogol y Senedd reol benodol, sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol.

**12.** Gwnaed addasiad ychwanegol i eiriad y rheol hon i adlewyrchu'n agosach y gofyniad deddfwriaethol ar y Comisiwn.

### Rheol 3: Cyflogi staff a ariennir gydag adnoddau'r Comisiwn

**13.** Cefnogodd y Bwrdd Taliadau Annibynnol y diwygiad arfaethedig i gyfeirio at "y Penderfyniad" yn hytrach na'r "Bwrdd Taliadau" ac awgrymodd eglurhad pellach i gyd-fynd â dyletswyddau cyhoeddus a bennir yn y Penderfyniad, yn hytrach na'r 'gweithgareddau' a bennir. Gellir cwmpasu'r diffiniad mwy cul hwn i gefnogi eglurder bwriadau'r Bwrdd.

### Rheolau eraill

**14.** Nid oedd unrhyw adborth uniongyrchol gan ymatebwyr yn cyfeirio'n benodol at y cynigion a nodwyd mewn perthynas â'r rheolau eraill.

**15.** Fodd bynnag, ers cyfnod yr ymgynghoriad hwn, lansiodd y Bwrdd Taliadau Annibynnol ei ymgynghoriad ei hun o'r Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd. Tynnodd y Bwrdd sylw at gynnwys egwyddor newydd ynghylch cydraddoldeb o ran cynrychiolaeth, sy'n dweud bod yn rhaid i Aelodau sicrhau eu bod yn trin etholwyr yn gyfartal, waeth beth fo barn wleidyddol plaid

(gwirioneddol neu ganfyddedig) yr etholwyr, lle mae hawliadau’n ymwneud ag ymgysylltu ag etholwyr. Mae hyn yn adlewyrchu rheol yn y Rheolau a Chanllawiau ar Ddefnyddio Adnoddau’r Senedd. Mae cynnwys hyn yn y Penderfyniad yn ymddangos yn fwy priodol, gan fod y mater yn ymwneud ag ymgysylltu ag etholwyr, ac mae'r ddyletswydd gyffredinol yn y Rheolau sy'n ymwneud â chyfle cyfartal wedi'i chynnwys yn Rheol 2 gyfredol. Felly, byddaf yn manteisio ar y cyfle i ddileu'r dyblygu diangen drwy ddileu rheol 7.

# 3. Sylwebaeth sy'n ymestyn y tu hwnt i'r cynigion

**16.** Lle’r oedd yr ymgynghoriad hwn yn ysgogi adborth ychwanegol gan rai ymatebwyr a oedd yn bennaf yn strategol ac yn canolbwyntio ar bolisi, ceir crynodeb o'r pwyntiau a wnaed isod. Er bod yr awgrymiadau a ddaeth i law yn mynd y tu hwnt i gwmpas y Rheolau a'r Canllawiau ar Ddefnyddio Adnoddau, caiff mewnbwn manwl ei roi i lywio syniadau cynnar wrth baratoi ar gyfer y Cynllun Ieithoedd Swyddogol ar gyfer y Seithfed Senedd.

### Cymdeithas yr Iaith

**17.** Crynodeb: Roedd sylwebaeth y grŵp yn bennaf yn strategol ac yn canolbwyntio ar bolisi, gan fynd i'r afael â diwylliant sefydliadol, fframweithiau cyfreithiol, a chynllunio strategol yn hytrach na'r newidiadau penodol i reolau sy’n destun ymgynghoriad. Tynnodd sylw at ei barn ynghylch:

- Cynnydd ac uchelgais annigonol o ran hyrwyddo'r Gymraeg yn fewnol.
- Diffyg eglurder a brys o ran adolygu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer y Cynllun Ieithoedd Swyddogol.
- Diffyg gofynion iaith Gymraeg yn fframweithiau staffio ac arferion cyflogaeth yr Aelodau.
- Yr angen am ofynion cryfach, penodol yn y Rheolau ynglŷn â'r defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig mewn cyfathrebu, penodiadau staff, ac adrodd.

a gwnaeth geisiadau am sicrwydd ac eglurder ar gynlluniau a newidiadau cyfreithiol yn y dyfodol.

### Comisiynydd y Gymraeg

**18.** Crynodeb: Roedd yr ymateb yn croesawu’r ymgynghoriad ac yn ceisio manteisio ar y cyfle i eirioli dros ofynion dwyieithog cryfach, yn unol â'u cyfrifoldebau rôl ehangach. Mae ei barn yn mynd y tu hwnt i'r cynigion presennol, gan eirioli dros newidiadau polisi ehangach i gefnogi dwyieithrwydd yn well a newidiadau i'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol ei hun. Roedd y pwyntiau’n cynnwys:

- Argymell bod yn rhaid i'r Aelodau benodi staff sy'n gallu darparu gwasanaethau yn Gymraeg a Saesneg.

- Awgrymu rheolau penodol i atal y Gymraeg rhag cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Cynnig bod yn rhaid i wefannau'r Aelodau fod yn ddwyieithog.
- Pwysleisio'r angen i bob gweithgaredd cyfathrebu ac ymgysylltu sy'n defnyddio adnoddau'r Senedd fod yn ddwyieithog.

# 4. Casgliadau

**19.** Nid oedd unrhyw ymatebion yn gwrthwynebu cynigion a wnaed i ddiweddaru'r Rheolau neu'r Canllawiau. Gwnaed rhai addasiadau i ystyried yr adborth a ddaeth i law i'r graddau y maent yn ymwneud â rôl y Swyddog Cyfrifyddu.

**20.** Bydd yr awgrymiadau sy'n ymwneud â'r fframwaith ynghylch ieithoedd swyddogol y Senedd yn cael eu bwydo i'r ystyriaethau ar gyfer datblygu'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol nesaf, ar gyfer y Seithfed Senedd.

**21.** Yn ogystal â'r newidiadau testunol a wnaed, bu addasiad pellach i'r drefn y mae'r rheolau'n ymddangos. Mae hyn i geisio dod â materion cysylltiedig at ei gilydd, a rhoi mwy o amlygrwydd i'r rheol sy'n ymwneud â'r ieithoedd swyddogol.

**22.** Mae'r Atodiad yn nodi'r cynnig terfynol ar gyfer diweddariadau i'r Rheolau a'r Canllawiau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd ar gyfer y Seithfed Senedd.

DIWEDD